***Statws*** *This is the original version (as it was originally made). Dim ond ar ei ffurf wreiddiol y mae'r eitem hon o ddeddfwriaeth ar gael ar hyn o bryd.*

OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

# 2022 No. 79

# Rheoliadau Addysg (Cyllid Myfyrwyr) (Diwygiadau Amrywiol) (Cymru) 2022

## RHAN 6

Diwygiadau i Reoliadau Addysg (Cymorth i Fyfyrwyr) (Cymru) 2018

### PENNOD 2

Cymhwystra ar gyfer dinasyddion penodol o Affganistan

**Mewnosod rheoliad newydd 23F (terfynu cymhwystra – dinesydd perthnasol o Affganistan)**

**34.** Yn rheoliad 12(1), yn lle "23D neu 23E" rhodder "23D, 23E neu 23F".

**35.** Ar ôl rheoliad 23E mewnosoder—

"**23F.**—(1) Mae'r rheoliad hwn yn gymwys—

(a) pan oedd person ("P") yn fyfyriwr cymwys oherwydd ei fod yn berson sydd â chaniatâd i ddod i mewn neu i aros fel dinesydd perthnasol o Affganistan (gweler Atodlen 2, paragraff 2ZA) mewn cysylltiad â chais am gymorth—

(i) ar gyfer blwyddyn gynharach o'r cwrs presennol,

(ii) ar gyfer cwrs llawnamser y mae'r cwrs presennol yn gwrs penben llawnamser mewn perthynas ag ef, neu

(iii) ar gyfer cwrs y mae statws P fel myfyriwr cymwys wedi cael ei drosglwyddo ohono i'r cwrs presennol o dan reoliad 28 neu baragraff 7 o Atodlen 5, a

(b) pan, ar ddiwedd y diwrnod cyn diwrnod cyntaf y flwyddyn academaidd y mae P yn gwneud cais am gymorth mewn cysylltiad â hi, fo'r cyfnod y caiff P aros yn y Deyrnas Unedig wedi dod i ben ac nad yw caniatâd pellach i aros wedi cael ei roi ac nad oes apêl yn yr arfaeth.

(2) Pan fo'r rheoliad hwn yn gymwys, mae statws P fel myfyriwr cymwys yn terfynu yn union cyn diwrnod cyntaf y flwyddyn academaidd y mae P yn gwneud cais am gymorth mewn cysylltiad â hi."

**Diwygiad i reoliad 80 (cymhwyso i gael benthyciad at ffioedd dysgu yn ystod y flwyddyn academaidd)**

**36.** Yn rheoliad 80—

(a) ar ôl paragraff (2)(b)(ib) mewnosoder—

"(ic) bod y myfyriwr yn dod yn berson sydd â chaniatâd i ddod i mewn neu i aros fel dinesydd perthnasol o Affganistan;";

(b) ym mharagraff (3), yn y lle priodol mewnosoder "person sydd â chaniatâd i ddod i mewn neu i aros fel dinesydd perthnasol o Affganistan".

**Diwygiad i reoliad 81 (cymhwyso i gael benthyciad cynhaliaeth neu grantiau yn ystod y flwyddyn academaidd)**

**37.** Yn rheoliad 81(3)(b), ar ôl paragraff (ib) mewnosoder—

"(ic) bod y myfyriwr yn dod yn berson sydd â chaniatâd i ddod i mewn neu i aros fel dinesydd perthnasol o Affganistan;".

**Diwygiadau i Atodlen 2 (categorïau o fyfyrwyr cymwys)**

**38.** Yn Atodlen 2, ym mharagraff 2ZA—

(a) yn is-baragraff (4)(b)—

(i) yn is-baragraff (iii), hepgorer y "neu" terfynol ac ar ôl is-baragraff (iv) mewnosoder "neu";

(ii) ar ôl is-baragraff (iv) mewnosoder—

"(v) person sydd â chaniatâd i ddod i mewn neu i aros fel dinesydd perthnasol o Affganistan,";

(b) ar ôl is-baragraff (4)(e) mewnosoder—

"(ea) ystyr "person sydd â chaniatâd i ddod i mewn neu i aros fel dinesydd perthnasol o Affganistan" yw person—

(i) y rhoddwyd caniatâd amhenodol iddo i ddod i mewn i'r Deyrnas Unedig o dan baragraff 276BA2 o'r rheolau mewnfudo, caniatâd amhenodol i aros yn y Deyrnas Unedig o dan baragraff 276BS2 o'r rheolau mewnfudo neu ganiatâd i ddod i mewn neu ganiatâd amhenodol i ddod i mewn i'r Deyrnas Unedig o dan baragraff 276BJ2 neu 276BO2 o'r rheolau mewnfudo,

(ii) y rhoddwyd caniatâd iddo i ddod i mewn neu ganiatâd amhenodol i ddod i mewn i'r Deyrnas Unedig neu i aros ynddi y tu allan i'r rheolau mewnfudo ar sail y Cynllun Polisi Adleoli a Chymorth i Affganiaid,

(iii) y rhoddwyd caniatâd amhenodol iddo i ddod i mewn i'r Deyrnas Unedig neu i aros ynddi y tu allan i'r rheolau mewnfudo ar sail y Cynllun Adsefydlu Dinasyddion Affganistan, neu

(iv) y rhoddwyd caniatâd amhenodol iddo i ddod i mewn i'r Deyrnas Unedig neu i aros ynddi y tu allan i'r rheolau mewnfudo fel priod, partner sifil neu blentyn dibynnol person sy'n dod o dan baragraff (iii) neu blentyn dibynnol i briod neu bartner sifil o'r fath,".

**Diwygiadau i Atodlen 4 (grant myfyriwr ôl-raddedig anabl**

**39.** Yn Atodlen 4—

(a) ar ôl paragraff 13E mewnosoder—

"**13F.**—(1) Mae'r paragraff hwn yn gymwys—

(a) pan oedd person ("P") yn fyfyriwr ôl-raddedig cymwys oherwydd ei fod yn berson sydd â chaniatâd i ddod i mewn neu i aros fel dinesydd perthnasol o Affganistan (gweler Atodlen 2, paragraff 2ZA) mewn cysylltiad â chais am grant myfyriwr ôl-raddedig anabl—

(i) ar gyfer blwyddyn gynharach o'r cwrs ôl-radd presennol, neu

(ii) mewn cysylltiad â chwrs y mae statws P fel myfyriwr ôl-raddedig cymwys wedi cael ei drosglwyddo ohono i'r cwrs ôl-radd presennol o dan baragraff 15, a

(b) pan, ar ddiwedd y diwrnod cyn diwrnod cyntaf y flwyddyn academaidd y mae P yn gwneud cais am grant myfyriwr ôl-raddedig anabl mewn cysylltiad â hi, fo'r cyfnod y caiff P aros yn y Deyrnas Unedig wedi dod i ben ac nad yw caniatâd pellach i aros wedi cael ei roi ac nad oes apêl yn yr arfaeth.

(2) Pan fo'r paragraff hwn yn gymwys, mae statws P fel myfyriwr cymwys yn terfynu yn union cyn diwrnod cyntaf y flwyddyn academaidd y mae P yn gwneud cais am gymorth mewn cysylltiad â hi.";

(b) ar ôl paragraff 14(3)(b)(ib) mewnosoder—

"(ic) bod y myfyriwr yn dod yn berson sydd â chaniatâd i ddod i mewn neu i aros fel dinesydd perthnasol o Affganistan;";

(c) ym mharagraff 14(4), yn y lle priodol mewnosoder "person sydd â chaniatâd i ddod i mewn neu i aros fel dinesydd perthnasol o Affganistan" ("*person with leave to enter or remain as a relevant Afghan citizen*");".

**Diwygiad i Atodlen 5 (benthyciadau at ffioedd colegau Oxbridge)**

**40.** Yn Atodlen 5, paragraff 4—

(a) ar ôl is-baragraff (2)(ab) mewnosoder—

"(ac) bod y myfyriwr yn dod yn berson sydd â chaniatâd i ddod i mewn neu i aros fel dinesydd perthnasol o Affganistan;";

(b) yn is-baragraff (3), yn y lle priodol mewnosoder "person sydd â chaniatâd i ddod i mewn neu i aros fel dinesydd perthnasol o Affganistan" ("*person with leave to enter or remain as a relevant Afghan citizen*");".

**Diwygiad i Atodlen 7 (mynegai o dermau wedi eu diffinio)**

**41.** Yn Atodlen 7, yn Nhabl 16, yn y lle priodol mewnosoder—

| | |
|---|---|
| ""person sydd â chaniatâd i ddod i mewn neu i aros fel dinesydd perthnasol o Affganistan" | Atodlen 2, paragraff 2ZA" |